

## **TREFNIADAU DIWEDD TYMOR – END OF TERM ARRANGEMENTS.**

Annwyl rieni/*Dear parents,*

Ar gyngor yr Awdurdod Addysg, cadarnheir y bydd Ysgol Glanrafon yn cau **ddydd Mercher, Rhagfyr 16eg**. Golyga hyn y bydd gweithgareddau Nadoligaidd yn cael eu huwchlwytho ar Teams a SeeSaw i'r holl ddisgyblion ar gyfer dydd lau a Gwener. Os oes unrhyw anhawster gyda'r manylion mewngofnodi, cofiwch gysylltu gyda'r ysgol ddydd Llun os gwelwch yn dda.

Fe fydd Hwb Gofal yn weithredol yn neuadd yr ysgol o 9 a.m. – 3.15 p.m. am y ddau ddiwrnod ar gyfer plant i deuluoedd yn y categorïau hyn **yn unig**, os nad oes unrhyw ofal plant arall ar gael iddynt:

- Lle mae **dau** riant yn weithwyr allweddol ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau brys.
- Rhiant sengl yn y categorïau uchod.

Er mwyn cael trefnu ar gyfer staffio hyn, mae'n hanfodol eich bod yn bwcio eich plentyn i mewn trwy schoolcomms **erbyn hanner nos, ddydd Sul, Rhagfyr 13eg. yn ddi-ffael os gwelwch yn dda** os y byddwch yn ffitio i un o'r categorïau hyn ac angen defnyddio'r Hwb. Os nad ydych wedi defnyddio'r Hwb cyn hyn, byddwn yn gofyn am dystiolaeth o'ch statws fel gweithwyr allweddol.

Os oes unrhyw riant yn teimlo y byddai'n fwy diogel i'w plant fod adref am y tridiau cyntaf o'r wythnos hefyd, ac os oes gwirioneddol raid – i sicrhau 10 niwrnod o hunanynysu cyn dydd Nadolig, fe fyddwn ni'n gydymdeimladol i hynny.

*On the advice of the Local Authority, it is confirmed that Ysgol Glanrafon will close on **Wednesday, December 16<sup>th</sup>**. This means that Christmas activities will be uploaded for the two days on Teams and SeeSaw for all the pupils. If there is any difficulty in accessing the site, please contact school on Monday.*

*A Resilience Hub will be operational in the school hall from 9 a.m.-3.15 p.m. for the two days for the children of those families whose parents are in one of the following categories, with no other childcare facilities available:*

- Where **both** parents are key workers in health, social care and emergency services.
- Single parent who is in one of the above categories.

*In order to arrange staffing for the Hub, it is essential that you book your child in on schoolcomms by **midnight, on Sunday, December 13<sup>th</sup>**. **without fail please**, if you fit any of the above criteria. If you have not already used the Hub, we will require evidence of your status as critical workers.*

*If any parent feels the need to safeguard their children for the first three days of the week also, and if it is absolutely necessary – to ensure 10 days of self - isolation before Christmas day, we will be sympathetic to this.*

Yn gywir/*Yours sincerely*, L.L.M.Jones (Miss) (Prifathrawes – Headmistress)